JRF JOSEPH ROWNTREE FOUNDATION

INSPIRING SOCIAL CHANGE

MONITRO TLODI AC ALLGAU CYMDEITHASOL YNG NGHYMRU 2013

New Policy Institute sy'n dadansoddi'r data diweddaraf ar dlodi ac allgau yng Nghymru.

Pwyntiau allweddol

- Dros y tair blynedd hyd at 2011/12, roedd 690,000 o bobl (23%) yn byw mewn aelwydydd incwm isel yng Nghymru. Er nad yw'r cyfanswm wedi newid rhyw lawer ers degawd cyntaf y mileniwm newydd, mae'r gyfran mewn teuluoedd sy'n gweithio wedi codi'n gyson.

- Roedd patrwm tlodi mewn-gwaith ledled Cymru'n wahanol i batrwm tlodi allan-o-waith. Fel cyfran o'u poblogaethau o oedran gweithio, roedd gan y Gorllewin, y Gogledd Orllewin a'r Dwyrain (ardaloedd gwledig yn bennaf) niferoedd uchel yn derbyn budd-daliadau mewn-gwaith, tra bo nifer isel gan Gaerdydd. O'i gyferbynnu, roedd gan y chwe Chwm yn Ne Cymru niferoedd uchel yn hawlio budd-daliadau diweithdra.

- Roedd gan ryw 29% o bobl mewn teuluoedd a oedd yn 'gweithio'n rhannol' incwm aelwyd isel, ond dim ond 7% o'r rheiny mewn teuluoedd a oedd yn 'gweithio'n llawn' oedd ag incwm aelwyd isel. I rai, gweithio mwy o oriau yw rhan o'r ateb i dlodi mewn-gwaith.

- Roedd gan ryw 23% o'r cyflogeion a oedd yn ennill llai na 'Chyflog Byw' y DU incwm aelwyd isel, ond dim ond 3% o'r rhai a oedd yn ennill mwy oedd ag incwm aelwyd isel. Yn ogystal â gweithio mwy o oriau, mae cyflog uwch yn rhan o'r ateb i dlodi mewn-gwaith. Mae'r ddau o bwys; nid yw'r naill na'r llall yn ateb perffaith ar ei ben ei hun.

- Roedd oddeutu 235,000 o oedolion o oedran gweithio yng Nghymru'n anabl a heb fod mewn gwaith; roedd ychydig dros draean ohonynt yn dymuno cael gwaith am dâl. Ar y cyfan, roedd 217,000 o bobl yng Nghymru heb waith ond yn dymuno cael gwaith yn 2012.

- Yng Nghymru, roedd 26.5% o'r boblogaeth o oedran gweithio'n anweithgar yn economaidd yn 2012 – sy'n uwch nag yn yr Alban neu yn unrhyw ranbarth yn Lloegr. Roedd Cymru bron 3.5 pwynt canran yn uwch na Phrydain, 'gormodedd' o 65,000 o bobl. O'r 'gormodedd' hwn, roedd 45,000 ohonynt i'w priodoli i'r gyfradd cyflogaeth is-na'r-cyfartaledd yng Nghymru.

- Mae maint yr anweithgarwch, anabledd a thlodi mewn-gwaith yng Nghymru'n adlewyrchu galw gwan am lafur. Mae ar Gymru angen creu swyddi i drechu tlodi.

Yr ymchwil
Gan dîm yn y New Policy Institute

MEDI 2013

Incwm isel yng Nghymru

Incwm aelwyd yw'r mesur arferol o dlodi. Ystyrir bod aelwyd mewn tlodi os yw ei hincwm (ar ôl treth ac wedi'i addasu ar gyfer maint yr aelwyd) islaw 60% o ganolrif y DU am y flwyddyn. Gellir mesur hwn cyn neu ar ôl didynnu costau tai (BHC neu AHC). Mae Ffigur 1 yn dangos aelwydydd islaw'r trothwy tlodi ar y mesur AHC, o 1994-2012, fel cyfran o'r boblogaeth. Caiff Cymru ei chymharu â Lloegr a'r Alban.

Ffigur 1: Y gyfran o'r bobl mewn aelwydydd incwm isel yng Nghymru, Lloegr a'r Alban (ar ôl costau tai), 1994-2012



Ffynhonnell: Aelwydydd Islaw Incwm Cyfartalog, Yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)

Ar gyfartaledd rhwng 2009/10 a 2011/12, roedd bron i chwarter (23%) y bobl yng Nghymru (690,000) mewn aelwydydd incwm isel, o'i gymharu â 22% yn Lloegr a 18% yn yr Alban. Roedd y ffigwr ar gyfer Cymru'n is nag ar ganol y 1990au, pan oedd tua 27%. Ers blynyddoedd cyntaf y mileniwm newydd, ychydig o newid sydd wedi bod yn niferoedd y bobl a'r gyfran o'r bobl sydd mewn tlodi yng Nghymru.

O fewn y cyfanswm hwn, roedd pensiynwyr bellach yn rhoi cyfrif am gyfran lai a phobl o oedran gweithio'n rhoi cyfrif am gyfran fwy. Ar gyfartaledd rhwng 2009/10 a 2011/12, roedd 12% o'r rheiny a oedd ar incwm isel yn bensiynwyr, roedd 29% yn blant ac roedd 58% yn oedolion o oedran gweithio. Ddeng mlynedd yn gynharach, roedd 19% yn bensiynwyr, 31% yn blant a 50% yn oedolion o oedran gweithio.

Roedd cyfraddau tlodi ychydig yn uwch i fenywod o oedran gweithio (23%) nag i ddynion (21%). Ymhlith pensiynwyr, roeddent ychydig yn uwch i ddynion (15%) nag i fenywod (13%). Roedd rhyw 30% o'r oedolion o oedran gweithio mewn teuluoedd ag oedolyn anabl yn byw mewn tlodi, o'i gymharu ag 19% o'r oedolion o oedran gweithio mewn teuluoedd heb unrhyw oedolion anabl.

Roedd pobl mewn teuluoedd sy'n gweithio bellach yn rhoi cyfrif am gyfran fwy hefyd; roedd 44% o'r bobl mewn aelwydydd incwm isel yn oedolion neu blant mewn teuluoedd sy'n gweithio. Ddeng mlynedd ynghynt, roedd y rhain yn rhoi cyfrif am 38%. Mae'r cynnydd mewn 'tlodi mewn-gwaith' yn gyson â thueddiadau ledled y DU.

Incwm isel mewn teuluoedd sy'n gweithio a theuluoedd nad ydynt yn gweithio

O ganlyniad i'r cynnydd mewn tlodi mewn-gwaith yng Nghymru, roedd mwy o oedolion o oedran gweithio a phlant bellach mewn teuluoedd incwm isel sy'n gweithio (285,000 ar gyfartaledd yn y tair blynedd hyd at 2010/11) nag mewn teuluoedd incwm isel nad ydynt yn gweithio (275,000). Mae'r ddau grŵp yma'n gorgyffwrdd i raddau helaeth, fodd bynnag, gyda nifer o bobl yn profi cyfnodau mewn gwaith ac allan o waith (Tomlinson a Walker (2010) *The impact of family and labour market changes on recurrent poverty*). Ond mae Tabl 1 yn dangos gwahaniaethau amlwg yn nosbarthiad daearyddol y ddau grŵp ledled Cymru. Gan mai dim ond ar gyfer Cymru gyfan y mae prif ystadegau tlodi ar gael, ceir bras amcan o dlodi mewn-gwaith trwy edrych ar nifer y teuluoedd sy'n derbyn Credydau Treth Gwaith (WTC), ac o dlodi allan-o-waith trwy edrych ar nifer yr oedolion sy'n derbyn budd-dal diweithdra.

Ar y mesurau hyn, roedd gan y Gorllewin gyfran uchel o dlodi mewn-gwaith (17% o'r derbynyddion Credyd Treth Gwaith, ond 12% o'r boblogaeth o oedran gweithio). Roedd gan y Gogledd Orllewin a'r Gogledd Ddwyrain gyfrannau uwch na'r cyfartaledd hefyd. Roedd gan Gaerdydd (5% o'r derbynyddion Credyd Treth Gwaith, 12% o'r boblogaeth o oedran gweithio) gyfran isel. Mae'r gwrthgyferbyniad rhwng y tri isranbarth a Chaerdydd yn dynodi ochr wledig tlodi mewn-gwaith. Roedd patrwm daearyddol tlodi allan-o-waith yn gwbl wahanol. Roedd gan y Dwyrain (5% o'r derbynyddion budd-dal diweithdra, ond 7% o'r boblogaeth o oedran gweithio), y Gogledd Ddwyrain a'r Gogledd Orllewin gyfrannau is na'r cyfartaledd. O'i gyferbynnu, roedd gan Gymoedd De Cymru (33% o'r derbynyddion budd-daliadau, ond dim ond 25% o'r boblogaeth o oedran gweithio) gyfran uchel.

Tabl 1: Oedolion/teuluoedd o oedran gweithio sy'n derbyn budd-daliadau o'i gymharu â'r holl bobl 16-64 oed: cyfrannau o'r cyfanswm ar gyfer Cymru gyfan

Isranbarth (awdurdodau lleol)	Cyfran o'r holl bobl 16-64 oed	Cyfran o'r derbynyddion Credyd Treth Gwaith	Cyfran o'r derbynyddion budd-dal diweithdra
Caerdydd	12%	5%	11%
Y Dwyrain (Powys, Sir Fynwy)	7%	7%	5%
Y Gogledd Ddwyrain (Wrecsam, Sir y Fflint)	9%	11%	8%
Y Gogledd Orllewin (Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Ynys Môn)	13%	17%	11%
Y De (Casnewydd, Bro Morgannwg, Pen-y-bont ar Ogwr, Abertawe)	21%	19%	22%
Y Cymoedd (Torfaen, Blaenau Gwent, Caerffili, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Castell-nedd Port Talbot)	25%	24%	33%
Y Gorllewin (Ceredigion, Sir Gâr, Sir Benfro)`	12%	17%	11%

Ffynhonnell: Data'r boblogaeth (ar gyfer canol 2011) – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) trwy NOMIS; Derbynyddion Credyd Treth Gwaith – Cyllid a Thollau EM; budd-daliadau diweithdra – Yr Adran Gwaith a Phensiynau trwy NOMIS (ill dau yn ddata ar gyfer diwedd 2012)

Tlodi mewn-gwaith – cyflog isel ynteu oriau isel?

Ffigur 2: Oedolion a phlant yn ôl statws gwaith teuluoedd a chwintel incwm



Ffynhonnell: Aelwydydd Islaw Incwm Cyfartalog, Yr Adran Gwaith a Phensiynau. Cyfartaledd o 2008/09 i 2010/11 yw'r data

Mae Ffigur 2 yn dangos oedolion o oedran gweithio a phlant dibynnol yn ôl statws gwaith teuluoedd ac yn ôl cwintel yn nosbarthiad incwm aelwydydd y DU. Gyda'r gyfradd tlodi ar y cyfan yng Nghymru'n 23%, mae'r cwintel (y bumed ran) isaf yn ddirprwy addas ar gyfer tlodi. Roedd rhyw 74,000 o'r bobl mewn teuluoedd sy'n gweithio'n llawn (yr holl oedolion yn gweithio'n llawn-amser, neu un yn llawn-

amser ac un yn rhan-amser) yn y cwintel isaf (7% o'r holl bobl mewn teuluoedd sy'n gweithio'n llawn). O'i gyferbynnu, roedd 123,000 o'r bobl mewn teuluoedd sy'n gweithio'n rhannol (yr holl oedolion yn gweithio'n rhan-amser, neu un yn gweithio'n llawn-amser a'r llall ddim yn gweithio) yn y cwintel isaf (29% o'r holl bobl mewn teuluoedd sy'n gweithio'n rhannol).

Mae'r risg uwch o lawer yma o dlodi i deuluoedd sy'n gweithio'n rhannol yn cael ei ddefnyddio'n aml i ddadlau bod mwy o oriau o waith am dâl yn amddiffyn rhag tlodi mewn-gwaith. Mae'r gyfundrefn nawdd cymdeithasol yn adlewyrchu'r farn hon trwy roi cymhelliad i bobl weithio mwy o oriau, trwy'r abwyd (yr elfen 30 awr yr wythnos ar gyfer Credyd Treth Gwaith) a'r pastwn (cynyddu'r oriau wythnosol y mae'n rhaid i gwpl â phlant eu gweithio i fod yn gymwys ar gyfer Credyd Treth Gwaith i 24). Gall ceiswyr gwaith sy'n gwrthod swydd am fod y cyflog yn rhy isel golli Lwfans Ceisio Gwaith am 13 wythnos. Mae'r rhaglen Twf Swyddi Cymru'n canolbwyntio ar greu swyddi cynaliadwy, hyd yn oed ar yr isafswm cyflog cenedlaethol (http://bit.ly/13ddA12).

O ystyried maint tangyflogaeth yng Nghymru (yn 2012, roedd tua 19% o'r gweithwyr rhan-amser yn dymuno ond yn methu â chael swyddi llawn-amser), mae cynyddu oriau gwaith pobl yn rhywbeth a ddymunir ac sy'n ddymunol. Ond a oes cyfiawnhad dros bwysleisio oriau ar draul cyfraddau cyflogau? Er enghraifft, mae cyflogeion rhan-amser yn derbyn llawer llai ar gyfartaledd, sef £7.60 yr awr (y canolrif ar gyfer Cymru yn 2012) na chyflogeion llawn-amser (£11.55 yr awr). Mae pobl mewn teuluoedd ag enillwyr rhan-amser yn unig yn rhoi cyfrif am hanner y rhai mewn teuluoedd sy'n gweithio'n rhannol. Iddynt hwy, mae cyflog isel ac oriau isel yn mynd law yn llaw.

Mae cymharu Ffigurau 2 a 3 yn dangos bod cyflog gwell yn amddiffyn rhag tlodi yn gymaint ag y mae mwy o oriau. Mae Ffigur 2 yn dangos bod dros chwarter y bobl yng nghwintel isaf y teuluoedd sy'n gweithio (74,000 allan o 260,000) mewn teuluoedd sy'n gweithio'n llawn. Mae Ffigur 3 yn dangos bod un rhan o bump o'r gweithwyr yn y cwintel isaf (19,000 allan o 90,000) ddim ar gyflog isel (gan fod y cyflog wrth yr awr yn cyfateb i, neu'n uwch na Chyflog Byw 2011, wedi'i ddadchwyddo gan enillion mewn blynyddoedd cynharach).

Ffigur 3: Nifer yr oedolion sy'n derbyn cyflog isel ac nad ydynt yn derbyn cyflog isel am bob cwintel incwm



Ffynhonnell: Aelwydydd Islaw Incwm Cyfartalog a'r Arolwg Adnoddau Teuluoedd, Yr Adran Gwaith a Phensiynau. Cyfartaledd o 2008/09 i 2010/11 yw'r data. Mae'r incwm wedi'i fesur ar ôl costau tai. Cyflog isel yw cyflog byw'r DU wedi'i ddadchwyddo gan enillion ar gyfer pob blwyddyn

I rywun sy'n talu treth incwm ac yswiriant gwladol ac mewn teulu sy'n derbyn credydau treth, mae 73c o bob £1 ychwanegol o enillion gros yn mynd i Drysorlys y DU. Mae hyn yn gymwys pa un a yw'r enillion uwch yn deillio o oriau hirach ynteu o gyfradd cyflog uwch (ac eithrio trothwyon arbennig ar gyfer oriau wythnosol). Mae'r gyfradd ddidynnu ymylol uchel hon (sy'n codi i 76c dan y Credyd Cynhwysol ar gyfer y math yma o deulu) yn anghymhelliad pwysig yn erbyn camau gweithredu ar lefel leol ac ar lefel Cymru gyfan i godi enillion mewn aelwydydd incwm isel.

Mae rhai rhesymau dros beidio â dymuno cael swydd lawn-amser yn cynnwys afiechyd, anabledd, a chyfrifoldebau gofal plant neu gyfrifoldebau gofal eraill. Mae ffigyrau'r DU (2008/09 i 2010/11) yn awgrymu na fyddai 11% o'r enillwyr rhan-amser sydd ar gyflog isel yn gallu gweithio mwy o oriau am y rhesymau hyn, yn bennaf oherwydd cyfrifoldebau gofal plant.

Incwm isel ymhlith y rheiny sydd bellaf o'r farchnad waith

Ers 2008, mae polisi Llywodraeth y DU wedi bod yn amcanu at symud y rheiny sydd 'bellaf o'r farchnad waith' i mewn i waith, gan gynnwys disodli Budd-dal Analluogrwydd (IB) â Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) a gostwng oedran y plentyn ifancaf y mae'n ofynnol i rieni sengl geisio gwaith ar ei ôl. O'r data a ddadansoddwyd ar gyfer yr adolygiad yma, anabledd oedd y prif ffactor gwahaniaethol ymhlith hanner yr oedolion o oedran gweithio ar incwm isel nad ydynt mewn aelwydydd sy'n gweithio. O'r rheiny sydd mewn tlodi allan-o-waith, roedd 47% yn anabl, 19% yn rhieni sengl a 28% yn ddi-waith.

Cymru sydd wedi cael ei tharo galetaf gan ddiwygiadau i gyfundrefn lles y DU sy'n effeithio ar bobl anabl. Gyda'r newid o Fudd-dal Analluogrwydd i Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, bydd y golled erbyn 2014/15 yn £165 am bob oedolyn o oedran gweithio. Y golled gyfartalog trwy ddisodli Lwfans Byw i'r Anabl â'r Taliad Annibyniaeth Bersonol yw £55 (Beatty a Fothergill (2013) *Hitting the poorest places hardest*). Mae hyn yn adlewyrchu'r gyfradd anabledd uwch yng Nghymru, gyda thua 24% o'r boblogaeth o oedran gweithio'n dweud bod ganddynt anabledd, o'i gymharu ag 20% yn Lloegr. Ar y cyfan, mae hanner yr holl oedolion o oedran gweithio heb waith yng Nghymru'n anabl.

Anabledd ac anweithgarwch economaidd

Pa un a yw anabledd yn ddangosydd ar gyfer pellter o'r farchnad waith, mae hynny'n dibynnu ar y modd y caiff pellter ei fesur. Mae Ffigur 4 yn dangos y 475,000 o oedolion o oedran gweithio (heb gynnwys myfyrwyr) yng Nghymru nad oeddent mewn gwaith am dâl (2012) yn ôl dymuniad i weithio neu beidio ac, os oeddent yn dymuno gweithio, pa un a oeddent yn cwrdd â'r amodau i gyfrif fel pobl ddi-waith (pobl sydd wrthi'n ceisio gwaith ac yn barod i ddechrau) ac felly'n "weithgar yn economaidd". Roedd ychydig yn llai na hanner (235,000) y cyfanswm yma'n anabl.

Polisi'r Llywodraeth fu ceisio symud pobl o anweithgarwch i weithgarwch economaidd. Dim ond chwarter y bobl ddi-waith (28,000 allan o 124,000) oedd hefyd yn anabl, ond roedd saith ym mhob wyth person anabl nad oeddent mewn gwaith yn 'anweithgar'. Ochr yn ochr â'r 28,000 o bobl ddi-waith hynny, roedd 55,000 o bobl anabl eraill yn 'anweithgar' ond yn dymuno cael gwaith am dâl. Roedd yr 83,000 yma'n cynrychioli mwy nag un rhan o dair o'r holl bobl anabl o oedran gweithio nad oeddent mewn gwaith am dâl, a bron i 40% o'r holl bobl yng Nghymru a oedd yn dymuno cael gwaith am dâl (217,000 yn 2012). Er bod cymorth gwell i bobl ddod o hyd i swyddi addas yn beth da, mae'r agweddau cosbol yn ddiangen, o ystyried faint o bobl anabl sydd eisoes yn dymuno cael gwaith am dâl.

Roedd y 26.5% o'r boblogaeth o oedran gweithio sy'n anweithgar yn economaidd yng Nghymru'n uwch nag unrhyw ranbarth yn Lloegr neu'r Alban. Roedd Cymru bron i 3.5 pwynt canran yn uwch na'r cyfartaledd Prydeinig, sy'n 'ormodedd' o 65,000 o bobl. Dylanwadodd y gyfradd cyflogaeth ar y lefel hon o anweithgarwch. Cymru oedd â'r gyfradd cyflogaeth ail isaf yn y DU, ar ôl Gogledd Ddwyrain Lloegr. Yr hyn sydd o bwys, fodd bynnag, yw pa un a oes gan Gymru gyfradd anweithgarwch uwch o *ystyried* ei chyfradd cyflogaeth is. Mae dadansoddiad ystadegol yn dangos bod ganddi – ond dim ond rhyw 20,000 o bobl yn fwy. Pe bai'r gyfradd cyflogaeth yng Nghymru'n cyfateb i'r cyfartaledd, byddai anweithgarwch economaidd 45,000 yn is.

Ffigur 4: Oedolion o oedran gweithio nad ydynt yn gweithio yng Nghymru yn ôl i) statws gweithgarwch economaidd a ii) dymuniad i gael swydd



Ffynhonnell: Arolwg o'r Llafurlu, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae'r data'n cynrychioli cyfartaledd y 4 chwarter yn 2012

Goblygiadau o ran polisi

Pwysigrwydd creu swyddi

Y brif broblem yng Nghymru yw diffyg swyddi. Mae diweithdra'n rhoi cyfrif am 60% yn unig o'r rheiny sydd heb waith ond yn dymuno cael gwaith. Mae diwygio'r gyfundrefn lles yn rhywbeth sy'n ategu ymdrechion i greu swyddi er mwyn cyflawni cyflogaeth lawn, yn hytrach na bod yn ddewis yn lle hynny. Gall rhoi blaenoriaeth i bolisi economaidd dros ddiwygio'r gyfundrefn lles fod yn berthnasol i dlodi mewn-gwaith hefyd. Mae ymchwil o UDA wedi dangos, pan fo'r galw am lafur yn cynyddu'n gryf, bod y rheiny sy'n gweithio rhy ychydig o oriau am rhy ychydig o gyflog wedi gweld y ddau'n gwella. Ategir hyn gan dystiolaeth ar gyfer Cymru nad oes rheswm, o safbwynt tlodi, dros ffafrio 'mwy o oriau' dros 'gyflog uwch' (nac i'r gwrthwyneb) . Mae gan y ddau ran i'w chwarae, er mai dim ond y cyntaf o'r ddau a grybwyllir gan y fersiwn wedi'i ddiweddaru o Gynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru (*Creu Cymunedau Cryf: Symud Ymlaen â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi* (2013)).

Lliniaru effaith tlodi

Bydd swyddi'n brin yng Nghymru am amser hir. Mae'r pennawd 'lliniaru' yn y Cynllun Gweithredu'n cydnabod hyn. Fe ellid ychwanegu at y pynciau ynddo – iechyd, tai, cyngor ariannol a chynhwysiant digidol (e.e. cludiant). Ond mae cwestiynau mwy yn cynnwys pa un a yw gwasanaethau cyhoeddus prif ffrwd wedi'u cynnwys yn ddigonol yn y cynllun. Mae cam yn y cyfeiriad hwn yn cydnabod problem y 'ddeddf gofal gwrthgyfartal' – mae'r ardaloedd hynny ac arnynt angen y gofal meddygol a chymdeithasol o'r ansawdd gorau yn cael gofal o'r ansawdd gwaethaf. Mae'r cynllun yn cynnwys Rhaglen Deddf Gofal Gwrthgyfartal. Cwestiwn arall yw a fyddai rhyw syniad sy'n tynnu popeth ynghyd yn cryfhau'r dull o weithio. O ystyried y gall teuluoedd sy'n gweithio ar incwm isel fod heb lawer o amser yn ogystal ag arian, un syniad posib fyddai profi gwasanaethau cyhoeddus ar sail eu hanghenion.

Yn ymarferol, mae lliniaru hefyd wedi ymestyn i effeithiau ariannol y toriadau lles. Mae cadw rhan o'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg a llyncu'r toriad ym Mudd-dal y Dreth Gyngor yn enghreifftiau o wariant wedi'i dargedu'n dda yng Nghymru. Mae derbynyddion mesurau o'r fath ar incwm eithriadol o isel (mor isel â £72 yr wythnos i bobl sengl neu £113 yr wythnos i gyplau). Iddynt hwy mae symiau o arian sy'n ymddangos yn fach (e.e. yr 'ergyd' o bron i £3 yr wythnos ar gyfartaledd trwy'r dreth gyngor yn Lloegr i'r rheiny sy'n colli Budd-dal y Dreth Gyngor yn ôl y gyfradd lawn) yn gwneud gwahaniaeth mawr.

I GAEL MWY O WYBODAETH

Mae'r crynodeb yma'n rhan o raglen ymchwil a datblygu JRF. Mae'r safbwyntiau'n eiddo i'r awduron ac nid ydynt yn cyd-fynd â rhai JRF o anghenraid.

Gallwch lawrlwytho ein hadroddiad **Monitoring poverty and social exclusion 2012** sy'n rhoi sylw i'r DU gyfan yn http://www.jrf.org.uk/publications/monitoring-poverty-2012

Gallwch ddarllen mwy o grynodebau yn www.jrf.org.uk
Mae fformatau eraill ar gael
ISSN 0958-3084

Sefydliad Joseph Rowntree
The Homestead
40 Water End
York YO30 6WP
Ffôn: 01904 615905

e-bost: Publications@jrf.org.uk
www.jrf.org.uk
Cyf: 2928

JRF JOSEPH ROWNTREE FOUNDATION

FSC www.fsc.org MIX Paper from responsible sources FSC® C012290

INSPIRING SOCIAL CHANGE